# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Angladdau a Phrofedigaeth

19 Tachwedd 2014

**Cofnodion**

**Yn bresennol:**

Mark Isherwood AC (Cadeirydd)
Rhodri Glyn Thomas AC
Russell George AC
Mohammad Asghar AC
Roy Folland
Alan Slater
Philip Blatchley
Paul Cuthell
Janette Bourne
Lorraine Barrett
David Beamer (Ysgrifennydd)

**Eitem 1: Ymddiheuriadau**

William Graham AC
Darren Millar AC
Andrew RT Davies AC
Janice Gregory AC
Antoinette Sandbach AC
Janet Finch-Saunders AC
Simon Thomas AC
Paul Davies AC
Bethan Jenkins AC
Nigel Lymn Rose
Robin Moulter
Fran Targett

**Eitem 2: Cymeradwyo'r cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf.

**Eitem 3: Y wybodaeth ddiweddaraf**

Gofynnodd y Cadeirydd i Gyngor ar Bopeth roi cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf.

**Eitem 4: Cyflwyniad: Janette Bourne, Gofal Galar Cruse Cymru**

Darparodd Janette Bourne fanylion ar y Safonau Gwasanaeth Gofal Profedigaeth a dosbarthodd gopïau o'r Safonau i aelodau'r Grŵp. Amlinellodd Ms Bourne y cefndir i'r Safonau a'r sefydliadau a oedd yn ymwneud â'r gwaith o'u datblygu. Cafwyd trafodaeth ar brofedigaeth yn y gweithle a'r diffyg deddfwriaeth yn y maes.

Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at grwpiau cyflogwyr / cyfarwyddwyr (e.e. Y Ffederasiwn Busnesau Bach, y CBI a'r IoD) i ddosbarthu canllaw ACAS ar brofedigaeth yn y gweithle, ac i ofyn am eu barn.

**Eitem 5: Ymgyrch Cod Ymarfer ar gyfer y Gymdeithas Fasnach**

Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp am yr ymgyrch. Roedd aros o hyd am ymateb i lythyr a anfonwyd gan y Cadeirydd at Mark Drakeford AC ar 26 Mai, 2014.

Amlinellodd Alan Slater y Cod Ymarfer diwygiedig a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Genedlaethol y Cyfarwyddwyr Angladdau, a Chod Safonau Proffesiynol newydd.

Trafododd y Cadeirydd lythyr a dderbyniwyd gan gyngor Caerffili, dyddiedig 20 Mai, 2014. Cytunwyd i ymateb gan amlinellu pwysigrwydd cael Cod Ymarfer.

**Eitem 6: Cyllid gan y llywodraeth / ffynonellau arian eraill ar gyfer angladdau, gan gynnwys y gronfa gymdeithasol a cheisiadau am dalu ymlaen llaw**

Cafwyd trafodaeth ar y gronfa gymdeithasol a’r cynnig rheol deng munud gan Emma Lewell-Buck AS. Cytunwyd i fonitro’r Bil, sydd i gael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr.

**Eitem 7: Datblygiadau o ran Ardystio Marwolaeth / y Ffurflen Werdd**

Adolygodd y Cadeirydd ymateb a gafwyd gan Jane Ellison AS ar 5 Mehefin 2014. Cytunwyd i ymateb i’r llythyr, yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am ardystio marwolaeth. Amlinellodd Roy Folland bryderon am y gwasanaethau crwner.

Cytunwyd y byddai’r Cadeirydd yn ysgrifennu at yr awdurdod lleol perthnasol i ofyn am wybodaeth.

**Eitem 8: Rhoi organau.**

Adolygodd y Grŵp yr atebion a gafwyd gan Mark Drakeford ar 16 Ebrill 2014, yn dilyn cyflwyno cwestiynau gan Darren Millar.

Cytunwyd y byddai’r Cadeirydd yn ysgrifennu at Mr Drakeford i ofyn am swyddog o’i Adran i fynychu cyfarfod nesaf y Grŵp. Byddai hyn yn helpu aelodau’r Grŵp i ddeall goblygiadau’r trefniadau newydd o ran rhoi organau ar gyfer y rhai sy’n ymwneud â’r sector angladdau a phrofedigaeth.

**Eitem 9: Paratoi ar gyfer Ebola**

Cafwyd trafodaeth ynghylch canllawiau diweddar yr Adran Iechyd a’r Gweithgor Iechyd a Diogelwch ar "Ôl Ofal yn dilyn Marwolaeth" mewn achos o farwolaeth o ganlyniad i Ebola.

Cytunwyd y byddai’r Cadeirydd yn ysgrifennu at Mark Drakeford i roi sylw i’r cwestiynau a godwyd yn y cyfarfodydd.

**Eitem 10: Unrhyw fater arall**

Dim.

**Eitem 9: Dyddiad y cyfarfod nesaf**

I’w gadarnhau.